Cynlluniau busnes

Cynllun busnes yw disgrifiad o'r hyn rydych yn bwriadu ei gyflawni a sut yr ydych yn bwriadu ei wneud. Gall cynlluniau busnes gael eu paratoi ar gyfer eich sefydliad yn ei gyfanrwydd neu ar gyfer prosiect unigol. Mae cynllun busnes yn disgrifio'r gweithgareddau, systemau, sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyrraedd targedau tymor byr, canolig a hir - mewn geiriau eraill:

Beth - ydych am ei wneud

Pwy - ydych am ei wneud â

Pryd – ydych eisiau ei wneud

Ble – fydd yn cymryd lle

Sut – you will do it and fund it.

Mae'n arfer da i'ch sefydliad gynhyrchu cynllun busnes a dylech gynnwys amrywiaeth o bobl o fewn eich sefydliad wrth ei ddatblygu. Does dim rhestr wirio o'r hyn y dylech ei gynnwys mewn cynllun busnes, gan y bydd hynny yn ddibynnol ar eich sefydliad. Fodd bynnag, mae rhai arianwyr y Loteri yn gofyn i chi ddarparu cynllun busnes fel rhan o'ch cais - mae hyn yn dibynnu ar y rhaglen a swm yr arian yr ydych yn ceisio amdano. Os yw'ch ariannwr Loteri yn gofyn am gynllun busnes, yna efallai y bydd meysydd penodol y maent am i chi ymdrin â hwy.

Dylai nodiadau canllaw ar gyfer y rhaglen amlinellu os oes angen cynllun busnes ai beidio â beth ddylech gynnwys ynddo. Mae rhai o'r meysydd a dderbynnir yn gyffredinol wedi'u rhestru isod.

Eich sefydliad

Dylech ddisgrifio amcanion a nodau eich sefydliad yn glir, ynghyd â'i hanes a chefndir. Yna dylech ddisgrifio sut mae'r prosiectau yr ydych yn gwneud cais am arian iddynt yn ffitio mewn i hyn. Dylech asesu ac amlinellu cryfderau a gwendidau eich sefydliad, yn ogystal â chyfleoedd a bygythiadau (risgiau) posibl.

Eich pobl

Dylech ddarparu manylion am sgiliau a phrofiadau eich pwyllgor rheoli neu fwrdd ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr, a chadarnhau pryd gawsoch eich ffurfio. Efallai y byddwch eisiau cynnwys diagram yn dangos strwythur staffio eich sefydliad. Dylech hefyd amlinellu pa sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer eich sefydliad yn gyfan gwbl neu, os ydych yn cynhyrchu cynllun ar gyfer prosiect unigol, pa sgiliau sydd eu hangen ar eich prosiect. Eglurwch os yw'r rhain i'w gweld o fewn eich pwyllgor, staff neu wirfoddolwyr cyfredol neu, os na, o ble byddant yn dod.

Eich gwaith

Dylech ddisgrifio gwaith cyfredol eich sefydliad gan gynnwys y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gennych. Os yw'ch sefydliad yn rhedeg nifer o wasanaethau neu brosiectau efallai yr hoffech ddangos sut mae'r rhain yn cysylltu â'u gilydd.

Eich cynlluniau ar gyfer eich prosiect

Dylech ddisgrifio'r hyn a obeithiwch y byddwch yn ei drosglwyddo drwy'r prosiect yr ydych yn gwneud cais am arian iddo. Dylai hwn gynnwys sut mae'r prosiect yn ffitio o fewn gwaith cyfredol eich sefydliad, dadansoddiad o'r angen am y prosiect (gan gynnwys arolwg o wasanaethau neu brosiectau tebyg neu gysylltiedig a ddarperir gan sefydliadau eraill) a disgrifiad o i ba raddau y bydd y prosiect yn cwrdd â'r angen hwnnw. Dylech ddarparu manylion am y targedau a'r newid a hoffech ei wneud drwy'r prosiect newydd a disgrifio sut bydd y gwaith newydd yn cael ei reoli, staffio, ei farchnata a chyllido. Dylech hefyd amlinellu unrhyw risgiau potensial wrth gyrraedd amcanion y prosiect a sut fyddwch yn eu goresgyn.

Cynlluniau busnes

Sut fyddwch yn mesur llwyddiant

Os byddwn yn rhoi grant i chi, bydd angen i chi ddweud wrth eich ariannwr Loteri sut byddwch yn defnyddio'r arian a ddarperir a pha mor llwyddiannus fu'r prosiect. Bydd yr ariannwr Loteri yn dweud wrthych ba wybodaeth monitro sydd ei angen arnynt, ond mae'n debygol y bydd gofyn i chi ddweud wrthynt ba weithgareddau neu wasanaethau sydd wedi eu cynnal drwy eich prosiect a pha wahaniaeth y mae hwn wedi ei wneud i'r bobl sy'n cael budd o'ch prosiect.

Eich cyllid

Dylech ddarparu manylion am gyllideb gyfredol eich sefydliad. Dylai eich cynllun busnes hefyd gynnwys cyllideb a rhagolwg llif arian ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun busnes. Dylech fanylu ar sut y byddwch yn parhau i wneud gwaith dydd i ddydd eich sefydliad a sut byddwch yn cynnal y prosiect newydd pan ddaw'r arian a wneir cais amdano i ben. Cofiwch gynnwys manylion am y gwahanol ffynonellau incwm a gwariant, er enghraifft incwm a enillwyd, cronfeydd cyhoeddus, cronfeydd nad ydynt yn gyhoeddus ayb.

Os mai dim ond rhan o'r arian sydd ei angen arnoch yw'r grant yma, dylech hefyd gynnwys cynllun codi arian. Mae angen i hwn gynnwys y ffynonellau eraill sydd wedi eu sicrhau gennych ac ariannwyr eraill y byddwch yn ymgeisio iddynt. Dylech hefyd amlinellu'r dyddiadau allweddol ar gyfer ariannwyr eraill megis dyddiadau cau ar gyfer ymgeisio a dyddiadau penderfynu.

Yr amserlen

Dylai eich cynllun busnes gynnwys cynllun gwaith er mwyn diffinio beth fyddwch yn ei wneud a phryd. Gallwch ddefnyddio digwyddiadau mawr yn eich cynllun gwaith fel cerrig milltir tuag at gyrraedd nodau tymor hir eich sefydliad a'r prosiect yr ydych yn ymgeisio am grant ar ei gyfer. Bydd hefyd yn eich helpu i ddiffinio sut caiff y rhain eu cyrraedd o fewn amserlen benodol.

Awgrymiadau

Gwnewch yn si_r eich bod yn cynnwys yr holl bobl allweddol o fewn eich sefydliad wrth ddatblygu eich cynllun busnes

Fel isafswm, cofiwch gynnwys disgrifiad o beth ydych am ei wneud, pam a phryd, sut byddwch yn talu amdano, a chynllun gwaith i ddangos sut byddwch yn cyrraedd eich amcanion. your aims

Cymorth ychwanegol

Mae cysylltiadau ar gyfer rhoi cymorth i chi wrth ddatblygu cynllun busnes isod:

Mae 'Business link' yn darparu cyngor mwy manwl ar gynlluniau busnes ar **www**.businesslink.org a thrwy ei gwasanaeth cynghori (gweler cysylltiadau defnyddiol).

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol - dewch o hyd i'ch Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol lleol ar **www**.wcva.org.uk

Mae Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yn darparu cefnogaeth i grwpiau celfyddydol gwirfoddol, ac mae ganddynt amrediad eang o daflenni cyngor a chanllawiau - **www**.vaw.org.uk

Gallwch hefyd edrych ar y wybodaeth gyllideb ac ariannu cyfatebol ar y wefan hon.